Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

# Polisi Rhestrau Adnoddau Ar-lein

# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Polisi Rhestrau Adnoddau Ar-lein

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cynnwys


1. Cwmpas ........ 2
2. Diben ........ 2
   2.1 Cefnogi datblygu sgiliau ........ 3
3. Dyrannu adnoddau a graddfeydd amser perthnasol ........ 3
4. Cynnwys Rhestrau Adnoddau Ar-lein ........ 4
   4.1 Darllen hanfodol ........ 4
   4.2 Darllen Pellach ........ 4
5. Rolau a chyfrifoldebau ........ 5
   5.1 Rôl staff academaidd ........ 5
   5.2. Rôl y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu ........ 6
6. Monitro ac Adolygu ........ 6
7. Awduron y Polisi ........ 6
8. Rheoli Fersiynau'r Ddogfen ........ 6

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## 1. Cwmpas

Dylai pob Athrofa fabwysiadu'r polisi hwn ac mae'n berthnasol i bob rhestr o adnoddau darllen neu adnoddau eraill ar lefel modylau ar raglenni Israddedig a rhaglenni Ôl-raddedig a addysgir.

Rhaid rhoi pob rhestr o adnoddau darllen neu adnoddau eraill a ddefnyddir wrth gyflwyno modwl ar gael fel rhestr adnoddau ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd benodedig y Drindod Dewi Sant.

Dylid llunio pob rhestr a gynhwysir mewn dogfennau rhaglen terfynol, gan gynnwys y rheini a ymgorfforir o fewn unrhyw ddogfennaeth ddilysu neu ail-ddilysu, fel rhestr ddangosol yn unig ac nid oes angen rhestr adnoddau ar-lein ar y pwynt hwn. Dylid ymgynghori â'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LIAD) ar y pwynt hwn, er mwyn darparu ar gyfer trafodaethau ehangach ynghylch adnoddau sydd ar gael a datblygu sgiliau, ac wedyn dylid creu Rhestrau Adnoddau Ar-lein pan fydd y broses ddilysu/ail-ddilysu wedi'i chymeradwyo, mewn da bryd cyn i'r modwl ddechrau.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i restrau adnoddau darllen ac adnoddau eraill i fyfyrwyr mewn sefydliadau partner. Mae'n bosibl bod y rheini dan amodau polisïau yn y coleg partner a dylid cynnal trafodaethau â llyfrgell y sefydliad partner.

## 2. Diben

Mae rhestrau adnoddau ar-lein yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu. Maent yn caniatáu i academyddion arwain myfyrwyr at ddeunydd perthnasol i gefnogi eu hastudiaethau ac annog darllen ehangach, a fydd yn dwysau eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Gellir eu defnyddio hefyd yn offeryn cydweithredol i ennyn diddordeb pellach gan fyfyrwyr yn eu maes pwnc ac i helpu i ddatblygu rhestrau adnoddau drwy awgrymu a rhoi adborth ar eu cynnwys.

Diben y polisi hwn yw sicrhau dull cydlynol o fewn y sefydliad o ran darparu deunyddiau rhestrau adnoddau ar-lein a galluogi'r LIAD i fodloni anghenion myfyrwyr o ran adnoddau gwybodaeth.

Nodau'r polisi yw:

- Rheoli disgwyliadau myfyrwyr drwy sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad hwylus i ddeunyddiau darllen hanfodol a'u bod yn ymwybodol o ddarllen pellach y gall fod ei angen.
- Sicrhau cysondeb, cywirdeb ac eglurder o ran rhestrau adnoddau ar-lein, ac felly darparu profiad cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr.
- Sicrhau mynediad hawdd i ddeunydd darllen craidd a deunydd arall, ac ar yr un pryd cefnogi datblygu sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd gwybodaeth trosglwyddadwy.
- Sicrhau bod rhestrau adnoddau ar-lein yn amrywiol; gan gydnabod ac adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau a chyfraniadau gan wahanol wledydd, diwylliannau ac ethnigrwydd.

- Mynegi'n eglur rolau a chyfrifoldebau staff y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu a staff academaidd er mwyn cefnogi dull cydweithredol gan sicrhau bod prynu a darparu adnoddau'n gost-effeithiol, a bod adnoddau ar gael yn y fformat iawn, ar yr adeg iawn ac mewn niferoedd digonol i fodloni amcanion dysgu ac addysgu'r rhaglen astudio.
- Cefnogi Strategaeth Ddigidol y Brifysgol o ran sicrhau bod gennym seilwaith digidol cysylltiedig, ac ar yr un pryd cefnogi datblygu sgiliau llythrennedd digidol.

## 2.1 Cefnogi datblygu sgiliau

- Llythrennedd gwybodaeth yw'r gallu i feddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau cytbwys ynghylch unrhyw wybodaeth y down o hyd iddi a'i defnyddio. Mae'n ein grymuso fel dinasyddion i ddatblygu barn wybodus ac i ymgysylltu'n llawn â chymdeithas (CILIP, 2018). Mae hyn yn cynnwys llythrennedd digidol, sy'n ymestyn i ymwybyddiaeth yn yr amgylchedd digidol, dealltwriaeth o e-ddiogelwch a chreu gwybodaeth newydd. Mae llythrennedd digidol a llythrennedd gwybodaeth yn seiliedig ar feddwl yn feirniadol a gwerthuso.
- Cymwyseddau digidol yw'r sgiliau sy'n paratoi rhywun i fyw, dysgu a gweithio mewn cymdeithas ddigidol (JISC, 2019).
- Mae llythrennedd digidol a llythrennedd gwybodaeth, a sgiliau digidol, yn gwneud cyfraniad hanfodol i ddatblygiad academaidd dysgwyr, felly mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi datblygu'r sgiliau i'w galluogi i ddefnyddio adnoddau dysgu a phlatfformau digidol yn effeithiol, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen o ddod o hyd i eitemau darllen hanfodol i gynnal ymchwil annibynnol. Mae'r sgiliau allweddol hyn hefyd yn meithrin yr offer beirniadol a fydd yn eu helpu i ddod yn ddinasyddion annibynnol ac ymgysylltiedig.
- Mae LIAD yn rhoi'r cymorth hwn ar gael drwy ei darpariaeth Sgiliau Digidol a Sgiliau Gwybodaeth. Bydd staff academaidd a'r LIAD yn cysylltu i sicrhau bod y cynnwys hwn yn cael ei ddatblygu ar adegau priodol o fewn y rhaglen, ac yn archwilio ymhle y mae Llythrennedd Digidol a Llythrennedd Gwybodaeth yn ei ystyr ehangach yn perthyn o fewn y cwricwlwm.

## 3. Dyrannu adnoddau a graddfeydd amser perthnasol

Ni chlustnodir cyllid gan y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu i ddarparu ar gyfer modylau neu raglenni newydd a rhaid ystyried adnoddau wrth geisio cymeradwyaeth i raglen astudio newydd [Gweler ffurflen PV1]. Os cynigir darparu rhaglen mewn maes newydd, disgwylir y bydd timau rhaglen yn ymgynghori ac yn cysylltu â'u Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd yn rhan o'r broses ddilysu [LIAA 4.3.2]. Mae unrhyw restrau darllen neu adnoddau mewn unrhyw waith papur modylau'n rhai dangosol yn unig. Y rhestr adnoddau ar-lein fydd y rhestr derfynol ac awdurdodol a dylid ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ddynamig ac yn gyfredol [gweler ffurflen PV3a].

Mae'r holl adnoddau a dderbynnir a dulliau rheoli adnoddau dysgu'n amodol ar y meini prawf a nodir ym Mholisi Datblygu Casgliadau'r LIAD, sydd i'w gael yn yr ardal polisïau ar MyDay. Dylid caniatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer archebu adnoddau ychwanegol, gydag isafswm o 2 fis. Bydd hyn yn hirach ar ddiwedd y flwyddyn academaidd er mwyn caniatáu am ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 4. Cynnwys Rhestrau Adnoddau Ar-lein

Dylai cynnwys rhestrau adnoddau ar-lein roi ystyriaeth i faint carfannau myfyrwyr, y dull mynychu, dull a lleoliad cyflwyno'r rhaglen a'r defnydd tybiedig o adnoddau. Dylent hefyd fod yn gytbwys o ran amrywiaeth, rhyng-genedlaetholdeb a chynrychiolaeth o fewn y sector cyflogaeth. Er mwyn bodloni'r galw gan fyfyrwyr a sicrhau darpariaeth deg ar gyfer ein poblogaeth myfyrwyr sy'n gynyddol wasgaredig, dylid llunio rhestrau adnoddau ar-lein gan gadw adnoddau sydd ar gael yn electronig yn y cof, yn enwedig pryd yr addysgir cyrsiau ar draws nifer o leoliadau, pryd nad yw myfyrwyr wedi'u lleoli ar gampws a phryd y defnyddir addysgu bloc. Rhaid eu llunio gan ddefnyddio'r templed sydd ar gael o fewn y feddalwedd rhestrau adnodau ar-lein, er mwyn sicrhau profiadau cydradd ar draws modylau a dylent gynnwys amrywiaeth o adnoddau dysgu sydd mor eang â phosibl. Mae'r LIAD yn rhoi mynediad i e-lyfrau, e-gyfnodolion, cynnwys fideo, deunydd mynediad agored a chadwrfa'r Brifysgol a dylai hyn ddarparu ar gyfer cynnwys diddorol ac amrywiol yn y rhestrau adnoddau ar-lein. Dylid defnyddio adnoddau dysgu presennol cyn ystyried prynu eitemau newydd, er mwyn sicrhau gwerth am arian. Hefyd dylid annog myfyrwyr i gymryd perchnogaeth o gynnwys rhestrau drwy wneud awgrymiadau a darparu adborth. Mae modd monitro'r defnydd o restrau a'r ymgysylltu â nhw, er mwyn helpu i sicrhau bod rhestrau'n berthnasol, yn ddynamig ac yn ddiddorol.

Cydnabyddir bod sicrhau bod gwerslyfrau academaidd a chyfnodolion (electronig neu brintiedig) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn her sylweddol, felly byddai'n ddefnyddiol nodi hyn os cyflwynir y modwl yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn rheoli disgwyliadau myfyrwyr.

Er mwyn sicrhau eglurder i fyfyrwyr a chaniatáu i'r LIAD wneud penderfyniadau gwybodus, dylai pwysigrwydd eitemau unigol ar restrau adnoddau ar-lein fod yn eglur. Gellir defnyddio dau gategori: darllen hanfodol a phellach fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **4.1 Darllen hanfodol**<br>*Deunydd sy'n rhan hanfodol o'r cwrs ac y disgwylir i fyfyrwyr dynnu arno yn rhan greiddiol o'u dysgu. Mae addewid ymhlyg y dylai myfyrwyr allu cael gafael ar yr eitemau hyn.* | **Rhaid** iddo fod ar gael o'r llyfrgell a **dylai** fod ar gael **ar-lein** |
| | Yn ddelfrydol dylai hyn gynnwys **hyd at 7 eitem** ond gydag **uchafswm** terfynol **o 15** |
| | Bydd LIAD yn rhoi mynediad i **1 copi fesul 10 myfyriwr** (electronig neu brintiedig) |
| | Pan fo eitemau **allan o brint**, gellir eu cynnwys dim ond os caniateir **digideiddio**'r adran berthnasol dan **drwydded y CLA**. |

| | |
|---|---|
| **4.2 Darllen Pellach**<br>*Deunydd sy'n ategu neu'n cyfoethogi'r darllen hanfodol. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn darllen o leiaf beth deunydd o'r categori hwn, er mwyn ehangu a dwysau dealltwriaeth o'r pwnc y tu hwnt i'r hanfodion.* | **Dylai** fod ar gael o'r llyfrgell, **ar-lein pan fo'n bosibl.** |
| | Uchafswm o **25 eitem** |
| | Bydd LIAD yn rhoi mynediad i **1 copi fesul 50 myfyriwr** (electronig neu brintiedig) |
| | Os **nad** yw eitemau penodol **ar gael yn hawdd** e.e. allan o brint, dylid **dangos hyn ar y rhestr ddarllen.** |

Mae platfform y rhestrau darllen ar-lein yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion er mwyn darparu ar gyfer anghenion eraill o ran categoreiddio deunydd ac ychwanegu cyd-destun at y deunydd a gynhwysir. Bydd y LIAD yn darparu cymorth ar gyfer hyn pan fo angen.

Rhoddir uchafswm ar nifer yr eitemau er mwyn osgoi rhestrau eithafol o hir; er mwyn cyfeirio yn hytrach na rhoi ar blât.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'n hanfodol bod staff academaidd a'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn gweithio fel partneriaid wrth gynllunio a datblygu gofynion o ran adnoddau ar gyfer rhaglenni newydd a rhaglenni cyfredol.

## 5.1 Rôl staff academaidd

Bydd staff academaidd:

- Yn ymgysylltu â hyfforddiant perthnasol y LIAD ynghylch prosesau cysylltiedig a datblygu sgiliau, ac yn sicrhau y rhoddir cyfle i wneud yr un peth i'r holl staff â chyfrifoldebau addysgu dan eu goruchwyliaeth.
- Yn ymgynghori ag Adran y LIAD yn gynnar wrth ddatblygu rhaglenni newydd ac yn gweithio'n gydweithredol â'u Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd er mwyn sicrhau bod rhestrau adnoddau ar-lein yn bodloni gofynion y polisi erbyn amser addysgu'r rhaglenni.
- Yn cysylltu'n agos ag Adran y LIAD er mwyn sicrhau y cynhwysir Sgiliau Digidol a Sgiliau Gwybodaeth ar yr adegau priodol o fewn rhaglenni.
- Yn ychwanegu adnoddau nad ydynt mewn stoc gennym eisoes at eu Rhestrau Adnoddau Ar-lein mewn modd amserol, o leiaf 2 fis cyn bod angen eitemau ac ar ôl gwirio eu bod ar gael yn gyfredol.
- Yn adolygu a/neu'n diweddaru Rhestrau Adnoddau Ar-lein yn rheolaidd, yn flynyddol o leiaf, mewn cyswllt â'u Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd, gan ganiatáu o leiaf 2 fis cyn bod angen eitemau.
- Yn ystyried a ydy adnoddau ar gael, ac yn enwedig yn electronig, wrth lunio rhestrau adnoddau ar-lein, ac yn cysylltu'n agos â'r LIAD os oes angen fformatau eraill ar gyfer unrhyw fyfyriwr. Gall y LIAD gynghori o ran ydy eitemau ar gael a'u cost er mwyn hysbysu gwneud penderfyniadau.
- Yn defnyddio templed rhestrau adnoddau ar-lein y Drindod Dewi Sant wrth lunio rhestrau newydd er mwyn sicrhau profiadau cydradd ar draws y Brifysgol ac yn pennu pwysigrwydd i eitemau rhestrau darllen h.y. darllen hanfodol a darllen pellach.
- Yn defnyddio'r gwasanaeth Digideiddio pan fo angen mynediad at ddeunydd wedi'i sganio, gan sicrhau cyflwyno ceisiadau am ddigideiddio o leiaf 2 fis cyn bod eu hangen.
- Yn rhoi gwybod am unrhyw anawsterau i Adran y LIAD wrth iddynt godi ac i annog adborth gan fyfyrwyr ar restrau adnoddau ar-lein y modwl yn rhan o'u gwerthusiad o'r modwl, er mwyn hysbysu arfer y dyfodol a thrwy annog defnydd o'r nodwedd drafod i fyfyrwyr sy'n gysylltiedig â'u rhestr unigol.

## 5.2. Rôl y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Bydd y LIAD:

- Yn cynghori ynghylch cymhwyso'r polisi Rhestrau Adnoddau Ar-lein a defnyddio meddalwedd y Rhestrau Adnoddau Ar-lein.
- Yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer cynllunio adnoddau; yn cyfrannu at ddiwygio a chymeradwyo manylebau modylau a rhestrau darllen dangosol ac yn rhoi adborth ar gynnwys rhestrau darllen ar gam dylunio a datblygu rhaglenni.
- Yn darparu cyfleoedd am hyfforddiant perthnasol a datblygu sgiliau ar gyfer staff academaidd a staff eraill.
- Yn cynghori ynghylch defnydd cyson o arddulliau cyfeirnodi.
- Yn cysylltu'n agos â Staff Academaidd er mwyn sicrhau y cynhwysir Sgiliau Digidol ar yr adegau priodol o fewn rhaglenni.
- Yn prynu adnoddau ar restrau adnoddau ar-lein a gyhoeddwyd, yn amodol ar gost, a ydynt ar gael, a chyfyngiadau trwyddedau, ar yr amod bod hyn yn cynnig i fyfyrwyr hygyrchedd cyfartal o ran adnoddau.
- Yn dynodi ac yn hyrwyddo dewisiadau amgen electronig i adnoddau printiedig, pan fo'n briodol.
- Yn mynd ati i ddod o hyd i argraffiadau newydd o deitlau hanfodol ar restrau darllen a'u prynu, yn ddibynnol ar ofynion pynciau, oni nodir yn benodol nad oes angen hyn.
- Yn monitro defnydd ac yn prynu copïau ychwanegol yn ôl yr angen, yn amodol ar y gost.

- Yn rhoi adroddiadau ar Restrau Adnoddau Ar-lein megis y defnydd gan fyfyrwyr.
- Yn cynghori ynghylch canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, yn benodol yng nghyd-destun digideiddio penodau / erthyglau ar gyfer rhestrau darllen.

## 6. Monitro ac Adolygu

Adolygir y polisi bob tair blynedd mewn cyswllt â staff academaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol.

## 7. Awduron y polisi

Sarah Jones, Pennaeth Gwasanaethau Academaidd, Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu
Alison Harding, Pennaeth Gweithredol y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

## 8. Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 2 | Diwygiwyd ar gyfer 2018 a'i ychwanegu at y templed polisïau | SJ | 30.5.18 |
| 3 | Diwygiwyd ar gyfer 2021 i roi ystyriaeth i weithredu meddalwedd rhestrau darllen | SJ | 27/7/21 |

**Statws presennol y Polisi:**

**Ydy'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AU

**Dyddiad ei gadarnhau:** 23/05/2016

**Dyddiad y daw i rym:** 23/05/2016

**Dyddiad ei ddiweddaru a'i adolygu ddiwethaf:** 17.11.21

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 01/09/2024

**I'w gyhoeddi:** MyDay / Templed y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu